

FY CV

...canllawiau



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio



Cyflwyniad

Mae mynd ati i ddisgrifio ein sgiliau a'n profiadau ar cv neu ffurflen gais am swydd yn gallu achosi poen meddwl go iawn. Mae rhai ohonom yn meddwl bod gennym ormod i'w ddweud, tra bo eraill, yn enwedig y rheiny sydd megis cychwyn eu gyrfaoedd, yn credu nad oes ganddyn nhw ddigon! Ond, mae'n bosibl cyraedd rhyw fan yn y canol a gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i wneud hynny.

Unwaith y bydd gennych cv da, mae gennych y manylion yr ydych eu hangen mewn cofnod ar-lein neu mewn print a gallwch gael gafael arnyn nhw unrhyw bryd! Dyna gychwyn gwyh i'ch datblygiad proffesiynol parhaus!

- ✓ Lluniwch cv cryno, sy'n sefyll allan, i'ch helpu i gael y swydd yr ydych ei heisiau
- ✓ Ceisiwch ddrafftio templed cv 'safonol' y gallwch ei ddiweddarau neu ei 'deilwra' yn hawdd fel y bo raid
- ✓ Defnyddiwch eich cv 'safonol' i arbed amser os byddwch chi angen llenwi ffurflen gais am swydd
- ✓ Defnyddiwch eich cv wrth ddarparu tystiolaeth ar gyfer cynlluniau gwarant fferm, ceisiadau am ysgoloriaeth, ac ati

Ymhle ddylech chi gychwyn?

Mae gennych sgrin wag neu dudalen lân o bapur o'ch blaen, sut ddylech chi gychwyn?

Efallai bod hyn yn ymddangos braidd yn rhy syml, ond dechreuwch drwy chwilio ar-lein.

Chwiliwch am 'cv template' neu 'templed cv' ar gyfer y math o waith yr hoffech ei wneud e.e. templed cv ar gyfer 'gweithiwr fferm', 'rheolwr coedwigaeth' neu 'stocmon'.

Mae digonedd o gyngor am ddim ar gael ar-lein, felly gwnewch eich gwaith ymchwil a byddwch yn dechrau gweld yn fuan iawn pa gynnwys ac arddull sy'n gweithio orau i chi.

Oes angen i mi gael llythyr cais/ffurflen gais hefyd?

Efallai y byddwch angen llythyr cais personol i fynd gyda'ch cv neu'r ffurflen gais. Os felly, peidiwch ag ysgrifennu mwy na dwy ran o dair o dudalen A4.

- **PEIDIWCH** ag ailadrodd gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn eich cv neu'ch ffurflen gais yn barod.
- **DYLECH** gynnwys rhywfaint o'r geiriau sydd yn y disgrifiad swydd.

Y llythyr hwn yw eich cyfle i gyfleu eich personoliaeth, i esbonio pam eich bod eisiau'r swydd ac i nodi'r pethau y gallwch chi eu cyfrannu i'r rôl/ busnes.



COFIWCH...

Os yw'r swydd yr ydych ei heisiau'n gofyn i chi gwblhau ffurflen gais yn lle cv, arbedwch amser drwy gopiö a gludo'r cynnwys priodol sydd ar eich cv yn uniongyrchol i'ch ffurflen gais. Ychydig iawn o gyflogwyr fydd yn gofyn am cv a ffurflen gais- felly gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr hysbyseb!

Fformatio eich cv

Ceisiwch nodi eich sgiliau, cefndir academaidd, datblygiad proffesiynol parhaus a'ch holl brofiad gwaith mewn **ffordd gryno, wedi ei osod allan yn dda, a chronolegol**, gan gychwyn gyda'r dyddiadau mwyaf diweddar.

Rhaid i'ch cv chi sefyll allan yn amlwg ymysg y gweddill - eich nod yw cael lle ar y rhestr fer. Unwaith y bydd gennych cv cryf, byddwch chi'n fwy hyderus ynglŷn â chyflwyno'r ffeithiau hyn mewn ffordd resymegol sy'n gwneud argraff bositif os, neu'n well na hynny, pan fyddwch chi'n cyrraedd y cam cyfworld hollbwysig.

- Dewiswch ffurfdeip clir fel Arial
- Defnyddiwch ffont maint 12
- Anelwch bob amser am ddwy dudalen o A4 ar y mwyaf. (Os ydych chi'n lleihau maint y ffont i wneud hyn peidiwch mynd yn llai na ffont maint 11.)



Beth i'w gynnwys, a'r drefn

Does dim rheolau pendant ond gwnewch yn siŵr eich bod yn ei gadw'n gryno, yn onest ac yn llawn gwybodaeth!

Dyma'r pethau y mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr eisiau eu gweld yn agos i'r cychwyn mewn cv...

- **Eich enw** (mae'r enw y mae pobl yn eich galw chi a'ch cyfenw yn ddigon)
- **Eich manylion cysylltu** (mae eich manylion e-bost a ffôn yn hanfodol. Os ydych yn chwilio am waith tu allan i'ch ardal chi, dydy'r cyfeiriad ddim bob amser yn hanfodol.)
- **Proffil personol** neu ddwy restr fer gyda phwyntiau bwled o 'Sgiliau allweddol' a 'Nodweddion allweddol'.

Canolbwyntiwch ar y cyfle hynod bwysig hwn i ddweud wrth gyflogwr pa fath o berson ydych chi a pha mor frwdfrydig, cydwytodol a dibynadwy fyddwch chi fel gweithiwr. Mewn geiriau eraill, pa mor debygol ydych chi o wneud y swydd y maen nhw eisiau i chi ei gwneud a chyfrannu at lwyddiant eu busnes.

- Mae stocmon profiadol yn sgil.
- Mae cyfathrebwr da yn y Saesneg a'r Gymraeg yn nodwedd.

Y darn cyntaf hwn o'ch cv yw eich cyfle i 'fachu' sylw person prysur, sydd â dwsinau neu efallai gannoedd o CVs i'w darllen. Rhestr neu restrau gyda phwyntiau bwled (*oddeutu pum pwynt bwled ymhob un*) sy'n gweithio orau fel arfer.



COFIWCH...

Ffont du, dim graffeg ffwdanus, dim ond y prif ffeithiau/gyflawniadau mewn dwy dudalen! Bydd ein templed ni yn dangos i chi beth i anelu ato.

Cofiwch, dydy lle'r aethoch chi i'r coleg neu'r ysgol, pa bynciau wnaethoch chi a'r graddau a gawsoch chi ddim o reidrydd yn mynd i ddweud unrhyw beth wrthyn nhw am eich nodweddion, eich sgiliau a'ch cryfderau. Maen nhw'n rhan hanfodol o'ch cv, ond does dim angen iddyn nhw ddod yn gyntaf! Efallai nad yw eich A* Safon Uwch mewn Ffotograffiaeth yn arbennig o berthnasol os ydych chi eisiau gweithio fel rheolwr llaethdy, ond mae'n dangos eich bod chi'n gallu dysgu, canolbwyntio a chyflawni!

- **Dyddiad geni** – rhowch hwn bob amser heblaw eich bod chi'n sensitif ynglŷn â datgelu eich oed a/neu nid yw'n ymddangos yn berthnasol i'r swydd yr ydych yn ei cheisio.
- **Sgiliau craidd a/neu gymwysterau proffesiynol** – rhestrwch, gan flaenoriaethu'r pwysicaf a'r mwyaf perthnasol.
- **Cefndir academiaidd** – y brifysgol/coleg/ysgolion yr aethoch iddynt (*dim pellach yn ôl na'ch TGAU*). Enw'r ysgolion, y blynyddoedd yr aethoch yno a'r prif gymwysterau.
- **Profiad gwaith** – cychwynnch gyda'ch rôl bresennol h.y. pwy yw'r cyflogwr/ly dyddiadau cychwyn a gorffen. Cadwch bob swydd neu rôl yn fyr drwy roi un frawddeg gyflwyno sy'n esbonio'r rôl a'r prif gyfrifoldebau, yna ychwanegwch restr pwyntiau bwled o'ch cyflawniadau/canlyniadau ar gyfer pob un. Does dim rhaid i chi gynnwys eich swyddi cynharaf neu leiaf pwysig bob tro, ond os ydych chi'n teimlo eu bod nhw'n berthnasol, ystyriwch grwpio rhai ohonyn nhw at ei gilydd i leihau nifer y geiriau.
- **Gwybodaeth ychwanegol** – rhestr o bwyntiau bwled a allai gynnwys e.e. trwydded yrru, siaradwr Cymraeg, llywodraethwr ysgol, rolau yn y CFFl sy'n dangos eich gallu a'ch sgiliau, prif ddiddordebau ac ati.
- **Tystlythrau** – yn y fan yma rhowch y geiriau: Ar gael ar gais. Dydy cyflogwyr ddim yn disgwyl y rhain fel arfer ar y cam ymgeisio. Os bydd angen enwau pobl allai roi geirada amdanoch, gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r bobl hyn i ofyn eu caniatâd yn gyntaf.



COFIWCH...

Gall pwyntiau bwled eich helpu i ostwng nifer y geiriau mewn cv. Cadwch nhw'n gryno, yn berthnasol i'r swydd yr ydych ei heisiau a rhowch nhw yn nhrefn eu blaenoriaeth.

✓ Llai i chi ei ddrafftio

✓ Llai o destun a geiriau i gyflogwr balu trwyddynt

Cofiwch eu cadw nhw i gyd yn rhai sy'n benodol i'r diwydiant a'r gwaith h.y. yn berthnasol i'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani.



AWGRYMIADAU DA...

- 1 Cymharwch eich cv neu'ch ffurflen gais (*a'r llythyr cais os yw'n briodol*) gyda'r disgrifiad swydd bob tro i sicrhau eich bod wedi cynnwys yr holl sgiliau/profiadau allweddol sy'n ofynnol, heb ailadrodd.
- 2 Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu rhoi tic wrth ymyl pob un o ofynion y cyflogwr h.y. defnyddiwch yr un termau neu dermau tebyg yn eich cv i ddangos eich bod yn deall a/neu fod gennych profiad o'r sgiliau sy'n ofynnol i wneud y swydd.
- 3 Gwiriwch eich sillafu a'ch gramadeg bob tro – gallai gwallau diofal gostio cyfweliad i chi.
- 4 Cadwch o'n fyr! Mae cv yn well fel arfer os yw'n cynnwys llai o destun oherwydd y cv hwnnw fydd yn cael ei ddarllen.
- 5 Ceisiwch droi eich rôl/cyfrifoldebau yn ganlyniad i'r cyflogwr bob amser. Peidiwch â bodloni ar nodi'r pethau rydych chi wedi eu gwneud, dywedwch beth roeddech chi'n bersonol wedi ei gyflawni e.e.
 - Cyfrifoldeb am werthiannau ac ôl-ofal y cwsmer, gan gynyddu faint o nwyddau a werthwyd o 40% mewn chwe mis a chefais ddyrchafiad i swydd cynorthwydd uwch.
 - Y cyfrifoldeb cyfan am iechyd buches laeth o 120, a llwyddais i sicrhau gostyngiad o 20% mewn cloffni.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

08456 000 813

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

farmingconnect@menterabusnes.co.uk



Cronfa Amathyddol Ewrop ar
tyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

